**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **24.10.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Addasiadau Rhesymol i Gymwysterau Cyffredinol** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae ein tystiolaeth arolygu ar draws ysgolion, awdurdodau lleol a lleoliadau ôl-16 yn dangos, er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn ymdrechu i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, bod cysondeb ac ansawdd trefniadau addasiadau rhesymol yn amrywio'n sylweddol. Felly, mae'r diwygiadau arfaethedig yn gyfle amserol i gryfhau tegwch mewn asesu a sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn gallu dangos eu galluoedd o fewn fframwaith cymwysterau teg a chydlynus. Rydym yn croesawu'r diwygiadau arfaethedig i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol ac yn cefnogi eu bwriad i greu system gymwysterau fwy cynhwysol sy'n galluogi mynediad ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig dysgwyr ag anableddau ac/neu anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu sylweddol. Mae'r newidiadau hyn yn cynrychioli dull cymesur sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, sy'n mynd i'r afael â chyfyngiadau hanesyddol yn rheolau esemptiad presennol, tra'n cynnal y trylwyredd a hyder y cyhoedd yn gysylltiedig â chymwysterau cenedlaethol.

Mae'r diwygiadau'n adlewyrchu'n gywir y dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac yn dangos eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysgol ehangach yng Nghymru, yn cynnwys nodau Cymraeg 2050 ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Gyda gweithredu gofalus, cyfathrebu clir, a sicrhau ansawdd trylwyr, gall y diwygiadau hyn gryfhau cynhwysiant heb danseilio dilysrwydd cymwysterau.

I sicrhau bod y diwygiadau arfaethedig yn cyflawni eu nodau bwriadedig tra'n cynnal hyder y cyhoedd a thegwch ar draws cymwysterau, rydym yn argymell yr ystyriaethau allweddol canlynol:

- Rydym yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig fel cam angenrheidiol a chymesur tuag at wella mynediad teg i gymwysterau ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.
- Dylid codi'r trothwy esemptiadau (e.e. i 50%) ar gyfer rhai cyrsiau TGAU, er enghraifft Cymraeg Craidd, lle mae elfennau llafaredd yn rhagori ar y terfyn presennol, sef 40%, ac yn atal dysgwyr cymwys rhag ennill y cymhwyster.
- Dylid caniatáu i esemptiadau elfennau rhannol hwyluso mynediad tecach at gyrsiau TGAU Cymraeg a Saesneg iaith lle nad yw cyfranogiad llawn ym mhob elfen yn bosibl.

Fodd bynnag:

- Rydym yn cynghori'n gryf y dylai esemptiadau gael eu defnyddio dim ond mewn achosion lle na ellir cymhwyso unrhyw addasiadau rhesymol eraill, yn gyson ag egwyddorion a disgwyliadau presennol JCQ.

- Dylid ymgorffori ymrwymiad i fonitro parhaus a gwerthuso tymor hir i asesu effaith y newidiadau ar ddeilliannau dysgwyr, a hyder rhanddeiliaid mewn cymwysterau.

Bydd effeithiolrwydd y newidiadau hyn yn dibynnu ar ba mor dda y mae ysgolion a chyrff dyfarnu'n eu dehongli a'u cymhwyso'n ymarferol. Bydd arweiniad clir, hyfforddiant staff a safoni cyson yn hanfodol i sicrhau bod bwriadau polisi'n cael eu troi'n brofiadau teg i ddysgwyr.

**(i) Ydych chi'n gweithio ym maes cefnogi cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi?**

Ydw Nac ydw

**(ii) Os ydych chi, beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i (iv) isod.)**

**(iii) Beth yw eich prif rôl?**

**(iv) Os nad ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi, ym mha rinwedd hoffech chi roi adborth?**

**(v) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp? (Os ydych chi, nodwch pa sefydliad neu grŵp.)**

Ydw Nac ydw

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**C1: A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddiwygio'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol i lunio rheolau eithriadol ar roi esemptiad o asesiad ar gyfer y cymwysterau TGAU penodol a nodwyd?**

**Cytuno'n gryf**

Rydym ni'n cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i gyflwyno 'rheol eithriadol' o fewn y Fanyleb Addasiadau Rhesymol gan ganiatáu ar gyfer esemptiad o asesiad mewn cymwysterau TGAU penodol yn y gyfres newydd o gymwysterau yng Nghymru. Mae'r cynigion yn rhoi dull cytbwys, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac yn osgoi rhoi dysgwyr anabl a/neu'r rhai â

namau penodol dan anfantais yn sgil y cymwysterau a enwyd. Mae’r diwygiadau yn benodol, yn gyfyngedig ac yn dra chyfiawn o ran y cymwysterau newydd a newidiadau sylweddol i’r gofynion arholi. Maent yn cynnal trylwyredd a thegwch tra’n gwella hygyrchedd ac yn hyrwyddo arfer gynhwysol yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol a blaenoriaethau addysgol Llywodraeth Cymru.

Mae’r dull hwn yn gyson ag Adran 5.17 Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol JCQ (2025), sy’n caniatáu esemptiadau lle na all ymgeisydd gael mynediad at elfen asesu ac nid yw’r elfen yn hanfodol i uniondeb y cymhwyster.

Mae’r cynigion yn cyd-fynd yn agos â’r ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy’n gofyn i gyrff cymwysterau wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw dysgwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais wrth ymgymryd ag asesiad. Trwy alluogi esemptiadau eithriadol ar gyfer cyrsiau TGAU penodol, mae’r diwygiadau’n sicrhau nad yw dysgwyr â namau fel mudandod achlysurol yn cael eu cosbi’n annheg gan fodelau asesu na allant gael mynediad llawn iddynt oherwydd eu cyflwr. I lawer o’r dysgwyr hyn, efallai na fydd addasiadau rhesymol yn ddigonol i alluogi iddynt gael chwarae teg mewn asesiadau llafaredd. Mae’r dull hwn yn gyson â pholisi presennol JCQ, sy’n caniatáu i ganolfannau ofyn am esemptiadau llawn neu rannol o asesiadau ymarferol mewn gwyddorau TAG Safon Uwch lle nad yw ymgeisydd, oherwydd anabledd, yn gallu dangos cymhwysedd mewn un neu fwy o’r medrau ymarferol angenrheidiol.

Hefyd, mae’r cynnig hwn yn cyd-fynd â deddfwriaeth sy’n benodol i Gymru o ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a’r Cod ADY (2021)) sy’n pwysleisio cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn a’r ddyletswydd ar ddarparwyr addysg i leihau rhwystrau rhag dysgu.

Mae’n bwysig pwysleisio a chyfleu y byddai esemptiadau ond yn berthnasol lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl ac y gellid ei ddangos yn glir ar dystysgrif y dysgwr. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod darparwyr a chyflogwyr yn deall unrhyw addasiadau a wnaed, heb leihau hyder y cyhoedd yn uniondeb y cymhwyster. Yn ogystal, i sicrhau tegwch a chysondeb i bob dysgwr, mae’n hanfodol darparu canllawiau clir a manwl, a gweithredu proses dryloyw, a reoleiddir yn dda ar gyfer cymhwyso esemptiadau asesiad llawn neu rannol. Mae hefyd yn bwysig ymgorffori monitro parhaus a gwerthuso tymor hir i asesu effaith y newidiadau ar ddeilliannau dysgwyr, cynhwysiant, a hyder rhanddeiliaid mewn cymwysterau. Bydd sicrhau bod y broses hon yn cyd-fynd â phrotocolau sefydledig JCQ yn helpu sicrhau bod penderfyniadau am esemptiad yn cael eu cymhwyso’n gyson ar draws canolfannau, gan ddiogelu tegwch tra’n cynnal hyder yn uniondeb y system gymwysterau.

**C2: Os oeddech chi'n anghytuno, neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 1, a oedd hyn yn gysylltiedig â'r dull arfaethedig yn gyffredinol neu'n gysylltiedig ag un o'r cymwysterau TGAU penodol a nodwyd?**

**C3: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn caniatáu mynediad teg a chyfartal i'r cymwysterau penodol i ddysgwyr y gallai eu hanabledd effeithio ar eu gallu i gwblhau'r asesiad llafaredd?**

**Cytuno'n gryf**

Ydym, rydym ni'n cytuno'n gryf y bydd y dull arfaethedig yn cefnogi mynediad teg a chyfartal i gymwysterau TGAU penodol i ddysgwyr y gallai eu hanableddau effeithio ar eu gallu i gwblhau asesiadau llafaredd. I lawer o'r dysgwyr hyn, efallai na fydd addasiadau rhesymol yn ddigonol i alluogi iddynt gael chwarae teg mewn asesiadau llafaredd. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru o ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY (2021)) sy'n pwysleisio cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'r ddyletswydd ar ddarparwyr addysg i leihau rhwystrau rhag dysgu.

Mae'r terfyn presennol o 40% a gwaharddiad ar esemptiadau elfennau rhannol yn cyfyngu ar fynediad i ddysgwyr na allant gymryd rhan mewn elfennau llafar, yn enwedig pan mae'r rhain yn ffurfio cyfran sylweddol o'r cymhwyster, er enghraifft yn y cyrsiau Cymraeg Craidd a'r cyrsiau TGAU Saesneg / Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth newydd. Heb y newidiadau arfaethedig, mae'r dysgwyr hyn mewn perygl o beidio â gallu ennill cymhwyster llawn neu maent dan anfantais o gael eu hasesu mewn ffordd nad yw'n adlewyrchu eu gwir alluoedd.

Trwy ganiatáu esemptiadau hyd at 50% ac esemptiadau rhannol ar gyfer llafaredd o fewn unedau asesu integredig (er enghraifft mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth a Chymraeg Iaith a Llenyddiaeth), mae'r dull diwygiedig yn sicrhau bod dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu penodol yn gallu cael mynediad teg a chyfartal i'r cymwysterau newydd o hyd. Bydd hyn yn helpu cynorthwyo pob dysgwr i wneud cynnydd parhaus yn ei ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ystod Blynyddoedd 10 ac 11. Yn yr un modd, mae'n sicrhau bod disgyblion ag anawsterau cyfathrebu yn gallu cael mynediad i'r cymwysterau Saesneg Iaith a Llenyddiaeth newydd lle caiff yr elfennau llafar eu hintegreiddio mewn 2 o'r unedau o fewn y cymhwyster. Mae'r newidiadau hyn yn gymesur, yn ffocysedig, ac yn gyson â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010 i leihau anfantais i'r eithaf tra'n diogelu dilysrwydd a hygrededd cymwysterau.

Rydym yn cytuno, heb gynnydd yn y trothwy esemptiadau a chyflwyno esemptiadau rhannol ar gyfer unedau penodol, y bydd dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu yn wynebu

anfantais anghyfiawn. Byddent yn cael eu hatal yn annheg rhag cael mynediad yn llawn i'r cymwysterau TGAU Cymraeg Craidd a'r / neu'r cymwysterau TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth newydd, a'u hennill, mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu gallu ieithyddol yn gywir.

Mae'r esemptiad arfaethedig hwn yn cyd-fynd yn briodol â chanllawiau JCQ (Adran 5.17, Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol, 2025), sy'n caniatáu esemptiadau lle na all dysgwr anabl gael mynediad i elfen, ar yr amod nad yw'r elfen yn hanfodol i uniondeb y cymhwyster. Mae hyn yn cefnogi cyflwyno rheol esemptiad ar gyfer tasgau llafaredd, lle nad llafaredd yw'r unig ffordd o ddangos dealltwriaeth o bwnc, gan sicrhau na fyddai esemptiadau o'r fath yn peryglu dibynadwyedd na gwerth y cymhwyster. Eto, mae'n bwysig pwysleisio y byddai esemptiadau ond yn berthnasol lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl ac y gellid dangos hyn yn glir ar dystysgrif y dysgwr.

**A4: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn lleihau'r graddau y mae pobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu hanableddau wrth geisio ennill y cymhwyster?**

**Cytuno'n gryf**

Ydym, rydym ni'n cytuno'n gryf y bydd y dull arfaethedig yn helpu lleihau anfantais ar gyfer dysgwyr anabl i gael mynediad i'r cymwysterau TGAU newydd, a'u hennill, o fewn y pynciau penodol. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru o ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY (2021)) sy'n pwysleisio cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'r ddyletswydd ar ddarparwyr addysg i leihau rhwystrau rhag dysgu.

Mae'r terfyn esemptiad presennol, sef 40%, a'r diffyg hyblygrwydd o ran esemptiadau elfennau rhannol yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr ag anawsterau llafaredd, iaith neu gyfathrebu, nad yw llawer ohonynt yn gallu cwblhau asesiadau llafaredd heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain. Trwy godi'r trothwy esemptiadau a chaniatáu esemptiadau rhannol, mae'r dull diwygiedig yn cael gwared ar rwystr strwythurol sylweddol a fyddai'n rhoi'r dysgwyr hyn dan anfantais.

Mae'r model hwn yn cyd-fynd yn well â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gofyn i gyrff dyfarnu wneud addasiadau rhesymol fel nad yw dysgwyr anabl yn cael eu cosbi'n annheg gan drefniadau asesu.

Rydym yn cytuno, heb gynnydd yn y trothwy esemptiadau a chyflwyno esemptiadau rhannol ar gyfer unedau penodol, y bydd dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu yn wynebu anfantais anghyfiawn. Byddent yn cael eu hatal yn annheg rhag cael mynediad yn llawn i'r

cymwysterau TGAU Cymraeg Craidd a'r / neu'r cymwysterau TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth newydd, a'u hennill, mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu gallu ieithyddol yn gywir.

**C5: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn parhau i ganiatáu i'r cymwysterau a nodwyd roi darlun dibynadwy o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth y person dan sylw?**

**Cytuno**

Ydym, rydym ni'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn parhau i sicrhau bod y cymwysterau TGAU penodol yn rhoi arwydd dibynadwy o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwr. Trwy gymhwyso dull dyfarnu sy'n gyson ag arfer bresennol sy'n ystyried perfformiad y dysgwyr yn yr elfennau o'r cymhwyster a gwblhawyd, byddai dysgwyr yn derbyn cymhwyster sy'n adlewyrchiad teg a dilys o'u gallu.

Mae tystiolaeth arolygu'n dangos nad yw trefniadau mynediad sy'n cael eu gweithredu'n dda yn gwanhau dilysrwydd asesiad pan gânt eu cymhwyso o fewn fframwaith clir o safoni a dealltwriaeth broffesiynol. Gall y diwygiadau arfaethedig gyflawni'r un cydbwysedd, ar yr amod bod canolfannau'n cael canllawiau clir, a bod prosesau sicrhau ansawdd yn gadarn.

Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u diffinio'n dynn, a dim ond yn berthnasol mewn achosion eithriadol lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl. Maent yn caniatáu ar gyfer esemptiad rhannol neu lawn elfennau penodol tra'n gwarchod uniondeb cyffredinol y cymhwyster. Yn yr achosion hyn, mae gweddill yr elfennau asesedig yn cynnig mesur dilys a thrylwyr o hyd o gyrhaeddiad yr ymgeisydd yn y pwnc.

Hefyd, mae'r cynnig yn cynnwys amddiffyniadau i ddiogelu hyder y cyhoedd: bydd esemptiadau'n cael eu dangos yn glir ar dystysgrif y dysgwr, gan sicrhau tryloywder ar gyfer darparwyr addysg bellach a chyflogwyr. Mae hyn yn gyson ag arfer bresennol mewn gwyddorau TAG Safon Uwch, lle mae esemptiadau o'r ardystiad ymarferol wedi cael eu cofnodi'n glir.

Trwy alluogi mynediad teg ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn gysylltiedig â chyfathrebu, heb beryglu safonau neu ddisgwyliadau'r cymhwyster, mae'r dull arfaethedig yn cefnogi tegwch a dibynadwyedd mewn asesu.

**C6: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn cynnal ffydd y cyhoedd yn y cymwysterau a nodwyd?**

**Cytuno**

Ydym, rydym ni'n cytuno bod y dull arfaethedig yn debygol o gynnal hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a nodwyd.

Mae'r diwygiadau'n cael eu rheoli'n llym a dim ond yn berthnasol mewn achosion eithriadol lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol. Bydd y cymwysterau'n cael eu dyfarnu o hyd ar sail cyfran ddigonol o gynnwys asesedig, gan sicrhau eu bod yn parhau i gynrychioli mesur dilys a dibynadwy o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr. Mae'r dull yn adlewyrchu arfer sefydledig mewn cymwysterau eraill, lle mae esemptiadau'n cael eu caniatáu o dan amodau clir a rheoleiddiedig, ac yn cynnal hyder y cyhoedd.

I sicrhau tegwch a chysondeb i bob dysgwr, mae'n hanfodol darparu canllawiau clir a manwl a rhoi proses dryloyw a reolir yn dda ar waith ar gyfer cymhwyso esemptiadau asesu llawn neu rannol. Bydd sicrhau bod y broses hon yn cyd-fynd â phrotocolau sefydledig JCQ yn helpu sicrhau bod penderfyniadau am esemptiad yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau, gan ddiogelu tegwch tra'n cynnal hyder yn uniondeb y system gymwysterau.

Mae'n bwysig bod y cynigion yn cynnwys amddiffyniadau i warchod tryloywder ac uniondeb. Byddai'r holl esemptiadau, p'un a ydynt yn llawn neu'n rhannol, yn cael eu nodi'n glir ar dystysgrif y dysgwr. Mae hyn yn cyd-fynd yn synhwyrol â chanllawiau JCQ sy'n galluogi esemptiadau i gael eu cofnodi ar dystysgrifau. Mae'n sicrhau bod darparwyr addysg bellach a chyflogwyr yn cael gwybod yn llawn am y llwybr asesu a gymerwyd, heb danseilio hygrededd y cymhwyster.

Trwy sicrhau cydbwysedd rhwng tegwch ar gyfer dysgwyr anabl a'r angen am sicrhau ansawdd yn gadarn, mae'r dull arfaethedig yn diogelu gwerth craidd y cyrsiau TGAU hyn, ac yn eu cydnabod, yn y system ehangach.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth, fonitro'r drefn o ran cymhwyso esemptiadau bob blwyddyn. Byddai gwerthuso patrymau defnyddio, deilliannau dysgwyr a chysondeb canolfannau yn rhoi sicrwydd fod y dull yn parhau i fod yn deg, a bod y cyhoedd yn parhau i fod â hyder ynddo.

**C7**: **Beth yw'ch barn am yr effeithiau y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010)?**

Rydym yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol yn gam cadarnhaol a chymesur tuag at ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr unigol. Bydd y newidiadau'n cryfhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 trwy gynnig mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr a fyddai fel arall dan anfantais yn sgil cynllunio asesiadau llafaredd o fewn y cymwysterau TGAU Saesneg a Chymraeg newydd.

Bydd cynnwys rheol esemptiad eithriadol, lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl, o fudd penodol i ddysgwyr ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, fel y rhai sy'n profi mudandod dethol, anhwylder datblygu iaith (DLD), neu anawsterau lleferydd yn gysylltiedig â gorbryder. I'r dysgwyr hyn, mae'r trothwy esemptiadau 40% presennol a diffyg esemptiadau elfennau rhannol yn creu rhwystrau sylweddol rhag cyrhaeddiad. Byddai'r diwygiadau hyn yn galluogi adlewyrchu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn decach, fel y dangosir trwy elfennau hygyrch y cymhwyster.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig wynebu heriau ychwanegol yn cael diagnosis amserol neu gymorth arbenigol. Felly, mae cyflwyno canllawiau cliriach a phroses esemptio dryloyw yn hanfodol i sicrhau cysondeb ar draws canolfannau ac atal gwahaniaethau o ran sut caiff trefniadau mynediad eu cymhwyso. Mae hyn yn hynod bwysig ar gyfer dysgwyr nad ydynt efallai wedi cael diagnosis ffurfiol, ond sy'n wynebu rhwystrau go iawn rhag cwblhau asesiadau llafaredd, lle mae'r ganolfan yn cydnabod eu hanghenion trwy dystiolaeth sefydledig o'u ffordd arferol o weithio, fel yr amlinellir yn y broses addasiadau rhesymol ar hyn o bryd.

Mae'r cynigion yn adlewyrchu dull cytbwys sy'n blaenoriaethu cynhwysiant tra'n cynnal uniondeb y cymwysterau TGAU newydd.

Mae canfyddiadau arolygu'n dangos yn aml fod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig neu y nodwyd eu hanghenion yn llai ffurfiol yn gallu wynebu mynediad anghyson i addasiadau rhesymol. Byddai canllawiau cenedlaethol clir ac enghreifftiau o arfer dda yn helpu sicrhau bod pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, yn elwa ar broses gyson a theg.

**C8: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig ar y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

Ydym, mae cyfleoedd clir i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol trwy'r diwygiadau arfaethedig. Trwy ymestyn y trothwy esemptiadau a chaniatáu esemptiadau elfennau rhannol, bydd mwy o ddysgwyr â namau lleferydd neu gyfathrebu yn gallu cael mynediad i gymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg iaith. Mae hyn yn hyrwyddo tegwch mewn asesu a gallai helpu

cadw ymgysylltiad â'r Gymraeg, yn enwedig ar gyfer dysgwyr a allai ymddieithrio fel arall oherwydd rhwystrau yn gysylltiedig ag elfennau llafaredd.

Yn ychwanegol, gellir defnyddio'r diwygiadau fel platfform i godi ymwybyddiaeth am arferion asesu cynhwysol a dangos sut gall cymwysterau esblygu i ddiwallu anghenion pob dysgwr heb beryglu safonau. Mae hyn yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru a Cymraeg 2050 trwy hyrwyddo mynediad teg i gymwysterau cyfrwng Cymraeg ac atgyfnerthu'r ymrwymiad i system addysg ddwyieithog a chynhwysol.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

Ydym. Gellir lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl trwy arweiniad clir, cyfathrebu tryloyw, a meini prawf cymhwyster cadarn. I sicrhau hyder yn y system, bydd yn hanfodol fod esemptiadau dim ond yn cael eu caniatáu lle nad yw unrhyw addasiadau rhesymol eraill yn bosibl, a bod yr holl esemptiadau'n cael eu cofnodi'n glir ar dystysgrifau cymwysterau, yn unol â pholisi presennol JCQ.

I liniaru risgiau ymhellach, dylid hefyd ymgorffori monitro a gwerthuso effaith y newidiadau hyn yn barhaus, yn enwedig o ran y Gymraeg, i sicrhau bod y diwygiadau'n parhau i gynnal yr egwyddor i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru a CBAC i gofnodi tystiolaeth llais y dysgwr gan y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan esemptiadau, i ddeall sut mae'r newidiadau'n dylanwadu ar gymhelliant a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

**Sylwadau ategol**

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn rhoi cyfle clir i ymestyn cynhwysiant mewn asesu, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu sy'n wynebu rhwystrau strwythurol rhag cael mynediad i gymwysterau TGAU ar hyn o bryd. Trwy godi'r trothwy esemptiadau a chaniatáu esemptiadau rhannol, mae dysgwyr yn fwy tebygol o barhau i ymgysylltu â dysgu iaith trwodd i asesu a dilyniant, sy'n cefnogi nodau polisi ehangach fel Cymraeg 2050 a nodau cynhwysol Cwricwlwm i Gymru.

Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod mwy o ddysgwyr yn dewis dilyn cymwysterau Cymraeg, lle gallent fel arall fod yn dawedog neu anobeithio oherwydd anhygyrchedd elfennau llafaredd. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn hyrwyddo tegwch ac yn ehangu cyfranogiad heb beryglu safonau asesu.

Er y byddai'r diwygiadau hyn yn caniatáu i nifer fach o ddysgwyr gael eu heithrio o elfennau llafaredd, nid yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y garfan ehangach wedi'u heffeithio o hyd. Mae nifer y dysgwyr sydd wedi'u heffeithio yn debygol o fod yn isel iawn ac wedi'i diffinio'n gyfyng gan feini prawf cymhwyster clir, gan gynnwys lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol yn bosibl.

**C9: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu newid y diwygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â chymwysterau TGAU Cymraeg Craidd a TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth er mwyn gwneud y canlynol:**

**-cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**-liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sylwadau ategol**

Mae'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer TGAU Cymraeg Craidd a TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen mewn hyrwyddo tegwch i ddysgwyr ag anawsterau cyfathrebu gael mynediad i gymwysterau Cymraeg.

Mae ffyrdd hefyd o liniaru effeithiau negyddol posibl ar ddefnyddio'r Gymraeg. Er bod angen esemptiadau mewn rhai achosion, mae perygl y gallent yn anfwriadol leihau amlygrwydd dysgwyr i Gymraeg llafar mewn lleoliadau ffurfiol. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy ei gwneud yn glir y bydd esemptiadau ond yn cael eu cymhwyso lle nad yw unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl ac y dylai dysgwyr gael eu hannog o hyd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol neu rai lle nad ydynt yn cael eu hasesu. Byddai annog ysgolion i greu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr ymgysylltu â'r iaith y tu allan i asesiad ffurfiol, er enghraifft trwy weithgareddau diwylliannol neu ryngweithio â chyfoedion, yn helpu cynnal defnydd o iaith a hyder dysgwyr. I liniaru risgiau ymhellach, dylid ymgorffori monitro a gwerthuso effaith y newidiadau hyn yn barhaus hefyd, yn enwedig o ran y Gymraeg, i sicrhau bod y diwygiadau'n parhau i gynnal yr egwyddor i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni ddylid ystyried bod y diwygiadau hyn yn gwanhau statws cymwysterau Cymraeg, ond eu bod yn hytrach yn cael gwared ar rwystrau mynediad i ddysgwyr â rhai namau ac/neu anableddau. Gyda gweithredu clir, cymhwyso cyson, a monitro priodol, gall y newidiadau hyn ymestyn cynhwysiant cymwysterau cyfrwng Cymraeg tra'n parhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob sector.

**C10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.**

Yn gryno, mae Estyn yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig fel dull cymesur, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i wella mynediad a chynhwysiant. Byddem yn croesawu cyfrannu tystiolaeth arolygu a thematig at werthusiadau o'u gweithredu yn y dyfodol. Bydd sicrhau arfer gyson, monitro tryloyw, a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn allweddol i gynnal tegwch a hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru.

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:**